Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

**POLICE AND CRIME PANEL**

**PANEL HEDDLU A THROSEDD**

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun, 2 Mehefin 2014 at 2.00 pm
Bodlondeb, Conwy

# EITEMAU I DDILYN

a) **Adroddiad diweddaru gan Banel yr Heddlu a Throsedd** (Tudalennau 1 - 16)

b) **Adroddiad blynyddol gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd** (Tudalennau 17 - 34)

d) **Rhaglen Waith Craffu** (Tudalennau 35 - 40)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Diweddariad i'r Panel Heddlu a Throsedd
## 2 Mehefin 2014
## *Winston Roddick CB, Cwnsler y Frenhines, Comisiynydd Heddlu & Troseddu Gogledd Cymru*

Dyma fy adroddiad i'r panel ar gyfer y cyfnod rhwng ymddangos ger eich bron ddiwethaf ar 17 Mawrth 2014 a 23 Mai 2014. Nid yw'n ymwneud â'r gofynion riportio statudol mewn perthynas â'r praesept, penodiadau i fy swyddfa, yr adolygiadau i fy nghynllun heddlu a throsedd na fy adroddiad blynyddol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y panel o dan adran 28(6) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau a gymerwyd gen i fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (y Comisiynydd) ac i wneud argymhellion i mi fel comisiynydd yn y cyswllt hwnnw.  Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) y Ddeddf, mae'n darparu'r panel â'r wybodaeth resymol sydd ei hangen arno er mwyn gallu cyflawni ei ddyletswyddau (y ceisiadau penodol).

Y tro diwethaf i mi ymddangos gerbron y panel, cyflwynais fy adolygiadau arfaethedig i'r cynllun heddlu a throsedd. Yn dilyn yr ymddangosiad hwnnw, mynegodd y panel ei gymeradwyaeth o'r adolygiadau ac fe wnes y ddogfen yn un gyhoeddus. Dyma'r cynllun y cyfeiriaf ato yn yr adroddiad hwn.

## Adran Un: Craffu ar Heddlu Gogledd Cymru

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar fy ngwaith o graffu ar berfformiad yr Heddlu yn erbyn yr amcanion heddlu a throsedd (yr amcanion).

Oherwydd bod angen i mi roi'r adroddiad hwn i'r panel cyn i'r prif gwnstabl gyflwyno ei adroddiad chwarterol cyntaf i mi, sy'n nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni'r amcanion strategol yn fy nghynllun heddlu a throseddu, nid wyf ar hyn o bryd yn gallu cyfeirio at adroddiad chwarterol cyntaf y prif gwnstabl.  Byddaf yn cyfeirio at hyn yn fy adroddiad nesaf i'r panel.


Fel yr eglurais yn fy adroddiad blaenorol ac yn fy nghynllun, yn erbyn y mesurau a ddisgrifir yn fy nghynllun y byddaf yn asesu ac yn craffu ar berfformiad yr heddlu o ran cyflawniad y pedwar amcan yn fy nghynllun. Bydd y panel hefyd yn ymwybodol mai'r brif ffordd y byddaf yn craffu ar berfformiad yr heddlu yw drwy'r bwrdd gweithredol strategol (SEB) yr wyf yn ei gadeirio ac y mae'r prif gwnstabl a'i uwch swyddogion yn aelodau ohono. Er mwyn fy nghynorthwyo i graffu ar berfformiad, cyn bob cyfarfod SEB bydd y Prif Gwnstabl yn rhoi ystadegau trosedd a gwybodaeth arall i mi, gan gynnwys graffiau, tablau a siartiau (o'r math a welir isod) a thrwy gyfeirio at yr ystadegau a'r tueddiadau y gallent eu datgelu a'r mesurau y cyfeiriais atynt yn flaenorol y byddaf yn craffu ar berfformiad yr Heddlu. Am resymau amlwg, buaswn yn pryderu mwy petai'r tueddiadau yn ddrwg yn hytrach na da ond rydw i hefyd yn craffu ar dueddiadau da gan mai o'r rhain y gallwn ddysgu sut y digwyddodd y gwelliannau.

## Amcan Heddlu a Throsedd 1: Atal trosedd


Mae pedwar mesur y byddaf yn mesur perfformiad yr amcan hwn yn eu herbyn sef lefel trosedd yn gyffredinol, lefel troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwr, lefel trosedd a ddatryswyd yn ôl math a lefel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Ni ddylid edrych ar y mesurau hyn fel targedau perfformiad. Eu pwrpas yw fy nghynorthwyo o gwestiynu'r ffigyrau perfformiad ac i wneud yn glir y prif faterion y byddaf yn eu hystyried wrth gyflawni'r asesiad.

Mae'r siartiau isod, a gynhyrchwyd gan y prif gwnstabl ar gyfer cyfarfod SEB mis Mai yn dangos nifer y troseddau seiliedig ar y dioddefwr a gofnodwyd gan Heddlu Gogledd Cymru bob wythnos. Mae'n dangos bod cyfanswm y troseddau seiliedig ar ddioddefwr wedi gostwng 2.6%.


Mae'r siart yn cynnwys cyfyngiadau rheoli sy'n galluogi tueddiadau i gael eu hadnabod h.y. newidiadau sylweddol mewn ffigyrau trosedd un ai o fewn cyfnod byr neu dros gyfnod hirach.




Ffigwr 1: troseddau seiliedig ar ddioddefwyr a gofnodwyd fesul mis (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)




Ffigwr 2: pob trosedd a gofnodwyd fesul mis (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)




Ffigwr 3: Ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd fesul mis (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

Mae'r heddlu bellach yn gweithio ar y gofynion cofnodi trosedd cenedlaethol newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar iawn gan y Swyddfa Gartref. Yn y gorffennol, cofnodwyd canlyniadau trosedd yn ôl troseddau 'wedi'u datgelu neu 'heb ei datgelu'. Y rhain oedd yr unig ddau gategori. Roedd yn rhaid i bob datrysiad neu ganlyniad ddisgyn i un o'r ddau gategori hynny. O'r cyntaf o Ebrill eleni, o dan y drefn cofnodi newydd, mae 18 categori o ganlyniadau sy'n rhoi disgrifiad llawer gwell o'r canlyniad. Mae'r rhestr lawn ar gael ar wefan y Swyddfa Gartref.

Mae'r ffigyrau diweddaraf a ddarparwyd gan yr heddlu yn dangos cyfradd ddatgelu o 28.4%, sydd 0.2 pwynt canran yn uwch na chyfradd ddatgelu'r llynedd (28.1%). Rydw i wedi cymharu ein perfformiad gyda'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae'n cyd-fynd â hyn, ac yn dilyn y newid i'r safonau cofnodi byddaf yn ymgymryd â gwaith craffu pellach unwaith y bydd data mwy cynhwysfawr ar gael.

Mae'r ystadegau cenedlaethol diweddaraf yn rhai ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn Rhagfyr 2013. Yn ôl y ffigurau ar gyfer Gogledd Cymru, allan o 21 categori o droseddau, roedd 16 yn dangos lleihad a 5 yn dangos cynnydd, sef:

- Cynnydd o 1% mewn Trais Heb Anaf
- Cynnydd o 17% mewn Troseddau Rhyw
- Cynnydd o 8% mewn Byrgleriaethau o Gartrefi
- Cynnydd o 2% mewn Dwyn o Siopau
- Cynnydd o 13% mewn Troseddau Cyffuriau

Pwrpas tîm ymchwilio Amethyst a gyflwynwyd drwy'r cynllun heddlu a throsedd cyntaf oedd darparu tîm ymchwilio dynodedig i ddelio'n benodol â thrais rhywiol a throseddau rhyw difrifol. Mae'r cynnydd yng nghyfradd riportio troseddau o'r math yma hefyd yn cynnwys riportio hanesyddol o ganlyniad i ymholiadau cenedlaethol a gafodd sylw amlwg. Mae'r cynnydd mewn riportio troseddau o'r fath i'w groesawu oherwydd ei fod yn dangos mwy o barodrwydd ar ran dioddefwyr i roi gwybod i'r heddlu. Rwy'n hapus iawn â gwaith Tîm Amethyst hyd yma, a thrwy fy ngwaith paratoadol ar gomisiynu gwasanaethau cefnogi ar gyfer dioddefwyr, rwyf yn ystyried sut i wella'r cymorth drwy ddarparu er enghraifft wasanaethau cwnsela neu wasanaethau cymorth eraill.

Rwyf yn monitro'r n math hwn o droseddu yn fanwl a byddaf yn adrodd yn ôl i'r panel arno yn y dyfodol drwy adroddiadau cynnydd a gweithgareddau craffu yr wyf wedi'u cynnal mewn perthynas ag ef.

Darperir mwy o wybodaeth am gyfraddau byrgleriaeth a chynnydd mewn dwyn o siopau yn adran tri. Mae'r tabl isod yn dangos nifer y byrgleriaethau o gartrefi yn ein grwpiau y mwyaf tebyg.

| Ardal | Nifer yr achosion bwrglera domestig (2013) |
|---|---|
| Gogledd Cymru | 1717 |
| Dyfnaint a Chernyw | 3154 |
| Norfolk | 1316 |
| Gogledd Sir Efrog | 1603 |
| Suffolk | 1621 |
| Swydd Warwig | 1799 |
| West Mercia | 2493 |
| Wiltshire | 1168 |

Tabl 1: Nifer o fyrgleriaethau o gartrefi yn ôl Heddluoedd GT (ffynhonnell: ystadegau trosedd y SYC hyd at Ragfyr 2013)


Mae'r Heddlu wedi diweddaru ei gynllun lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Dogfen fewnol yw hon sy'n darparu gwybodaeth ac asesiadau o risg ar draws Gogledd Cymru ynghyd ag atebion ar gyfer mynd i'r afael â'r problemau hyn. Fe'i darparwyd gan yr heddlu ar gyfer cyfarfod mis Mai o'r BGS. Diben y cynllun yw galluogi'r prif swyddogion i ddarparu cyfeiriad strategol ar gyfer leihau troseddu ar draws ardal yr Heddlu.

## Amcan Heddlu a Throseddu 2: Darparu ymateb yn effeithiol

Rwy'n cynnwys hyn yn yr adroddiad gan fod aelodau o'r cyhoedd a'r panel wedi fy holi am amseroedd ymateb.

Y tri mesur o fewn yr amcan heddlu a throsedd hwn fel y'i nodir yn fy nghynllun yw: amseroedd ymateb cyfartalog yr heddlu i fynychu achosion brys; faint o alwadau difrys a ddosberthir fel galwadau 'wedi eu gadael'; adborth a geir drwy arolygon dioddefwyr.


Ar hyn o bryd, yr amser ymateb cyfartalog i fynychu achosion brys yn 2013/14 yw 14.8 munud. Mae'r siart isod yn rhoi trosolwg ar yr amseroedd ymateb cyfartalog. Mae nifer o newidiadau system wedi eu gweithredu i wella cywirdeb y wybodaeth hon – mae'r system yn logio'r amser ymateb yn awtomatig. Ar y cyfan, mae'r amseroedd ymateb yn sefydlog ar hyn o bryd




Ffigwr 4: Amser ymateb cyfartalog wythnosol ar gyfer achosion brys (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru, 1 Mai 2014)


Yr wyf i a'r heddlu hefyd wedi edrych ar y gyfradd galwadau difrys sy'n cael eu gadael cyn eu hateb, sydd hefyd yn cael ei fesur o dan yr amcan hwn.

Dengys y siart isod y gyfradd o alwadau difrys sy'n cael eu gadael. Yn y bôn, beth mae hyn yn ei olygu yw'r % o alwadau a wneir i linellau difrys (sy'n cynnwys 101 a 0300 330 0101) nad ydynt yn cyrraedd derbynnydd galwadau dynodedig. Gallai fod nifer o resymau pam nad yw'r galwr yn dewis parhau gyda'r alwad, fodd bynnag nodwyd bod monitro'r ffigwr hwn yn rhoi syniad i ni o ba mor hawdd yw cysylltu â'r gwasanaeth. O'r siart isod, mae'n amlwg bod lleihad wedi bod yn y ganran o alwadau i'r gwasanaeth y mae'r galwr yn rhoi'r gorau iddynt, neu'n eu gadael cyn iddynt gael eu hateb. Dywed yr Heddlu wrthyf mai canlyniad newid prosesau yn y ganolfan gyfathrebiadau yw hyn. O fewn y siart, mae'r Heddlu wedi rhoi enghreifftiau, megis yr effaith a gafodd y tywydd garw yn gynharach eleni, a arweiniodd at lefel uwch o alwadau "wedi eu gadael" er mwyn amlygu'r rhesymau hysbys dros gynnydd yn y galw ar y gwasanaeth. Y gyfradd bresennol o alwadau wedi eu gadael yw tua 2% o'r holl Alwadau Difrys.




**Ffigwr 5: Y gyfradd wythnosol o alwadau difrys sy'n cael eu gadael (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru, 1 Mai 2014)**

Fel Comisiynydd, mae gen i ddiddordeb mawr ym marn pobl am yr Heddlu. Mae felly'n ddefnyddiol i mi gael gan yr Heddlu, bob chwarter, ganlyniadau ei arolygon boddhad dioddefwyr. Mae'r tabl isod yn dangos y canlyniadau o ran dioddefwyr a holwyd ynghylch pa mor fodlon oeddent gyda'r profiad yn gyffredinol. Fel y gellir gweld, mae'r gyfradd foddhad wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2006/07, gyda mymryn o ddirywiad yn lefel y boddhad tuag at ddiwedd cyfnod yr arolwg. Gyda'r cod dioddefwyr newydd yn dod yn weithredol a'r arferion newydd sy'n deillio ohono, rwy'n rhagweld y bydd ymateb arolygon boddhad defnyddwyr yn dangos cynnydd mewn boddhad a byddaf yn edrych ar y canlyniadau i weld a yw hynny'n digwydd ai peidio. Mae gwaith ar y gweill fel rhan o gynllun gweithredu'r prif gwnstabl i weld beth allwn ei ddysgu o waith "meddwl ar sail systemau".




**Ffigwr 6: Boddhad cyffredinol (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru, 1 Mai 2014)**

Rwyf wedi parhau i ymgysylltu â chymunedau Gogledd Cymru ac i adrodd yn ôl i'r prif gwnstabl ar y wybodaeth a roddir i mi. Mae mwy o wybodaeth am fy ngweithgareddau diweddar i'w gweld yn Adran dau'r adroddiad diweddaru hwn.

## Amcan Heddlu a Throsedd 3: Lleihau niwed a'r risg o niwed


Mae gan fy nghynllun ddau fesur ar gyfer edrych ar effeithiolrwydd perfformiad yr heddlu sef: nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol (KSI) mewn damweiniau traffig ar y ffordd, a lefel yr aildroseddu.

Roedd nifer y KSI yn uwch nag yn y flwyddyn flaenorol (311 o'i gymharu â 295). Mae gwahaniaeth o 16 o un flwyddyn i'r llall yn nifer y KSI. Nid yw hyn ynddo'i hun yn golygu bod yr Heddlu wedi perfformio'n llai nag effeithiol ond rydw i wedi gofyn i'r Prif Gwnstabl egluro'r cynnydd a byddaf yn adrodd yn ôl i'r panel yn y man.

| Chwef 2014 | BHY | BHY diwethaf | % Newid |
|---|---|---|---|
| Angheuol | 24 | 19 | 26.3% |
| Difrifol | 287 | 276 | 4.0% |
| Mân | 1556 | 1672 | -6.9% |
| Cyfanswm | 1867 | 1967 | -5.1% |

**Ffigwr 7: Nifer wedi eu lladd, wedi dioddef anafiadau difrifol neu fân anafiadau mewn damweiniau traffig y ffordd (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru, 1 Mai 2014)**

Cyhoeddir y ffigurau perthnasol i aildroseddu ar sail genedlaethol gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Dengys y tabl isod y troseddau a gyflawnir gan bobl sy'n troseddu am yr eildro neu fwy dros gyfnod o ddeuddeng mis.




Ffigwr 8: aildroseddu (ffynhonnell: Heddlu Gogledd Cymru)

## Amcan Heddlu a Throseddu 4: Creu partneriaethau effeithiol

Mae hwn yn amcan yr un mor bwysig â'r tri arall ond gan ei fod yn un i mi yn hytrach na'r Heddlu ac nad yw perfformiad mewn perthynas ag ef yn agored i gael ei fesur (yn sicr nid mesur ystadegol), nid wyf wedi nodi yn y cynllun unrhyw fesurau ffurfiol ar gyfer ei fesur. Fodd bynnag, rwy'n bwriadu cynnwys mewn adroddiadau cyfnodol i'r panel wybodaeth a fydd yn ei alluogi i graffu ar fy mherfformiad mewn perthynas â'r amcan hwn. Y partneriaethau ffurfiol yr wyf yn aelod ohonynt neu y mae fy swyddfa â chynrychiolydd arnynt yw'r Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol, Bwrdd Cymunedau Diogelach, Bwrdd Cynllunio Ardal a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol. Yr wyf wedi arwyddo Cytundeb 'Compact' yn ddiweddar gyda chwe chyngor gwirfoddol Gogledd Cymru.

## Trosedd a Phlismona yn eich ardal chi

Yng nghyfarfod diwethaf y Panel awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol pe bai modd cyhoeddi ystadegau trosedd ar sail mor leol a phosibl. Mae gwefan y swyddfa gartref http://www.police.uk yn darparu gwybodaeth ystadegol ar droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ôl ardaloedd côd post.

## Adran Dau: Diweddariadau Cyffredinol

Yn yr adran hon rwy'n rhoi crynodeb byr i'r panel o'r prif bethau yr wyf wedi bod yn eu gwneud ers cyfarfod diwethaf y panel.

## Ymgysylltu a Chyfathrebu

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a ffordd i'r gymuned o ymgysylltu â phlismona. Ers cyfarfod diwethaf y Panel, rwyf wedi diweddaru fy nghynllun ymgysylltu ac wedi cyflawni amryw o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth o fy rôl ac i roi cyfle i gymunedau Gogledd Cymru gael dweud eu dweud am droseddu a phlismona. Dyma rai o uchafbwyntiau'r misoedd diwethaf:

Fel rhan o ddathlu ei ben-blwydd yn 40 oed, cynhaliodd Heddlu Gogledd Cymru ddiwrnod agored ym mhencadlys yr heddlu ym Mae Colwyn. Daeth nifer da o'r cyhoedd i'r digwyddiad a chawsant gyfle i weld gwahanol agweddau ar waith yr heddlu ac i ymgysylltu'n uniongyrchol â swyddogion, staff, gwirfoddolwyr, asiantaethau partner ac aelodau o'm swyddfa. Anerchais gyn swyddogion yr heddlu hwn a siaradais hefyd mewn digwyddiad i lansio llyfryn yn olrhain hanes dwyieithrwydd yn Heddlu Gogledd Cymru ac ymrwymiad yr Heddlu i'w bolisi dwyieithrwydd. Gellir gweld y lluniau a dynnwyd ar y diwrnod ar wefan yr heddlu: http://www.north-wales.police.uk

Un o'r uchafbwyntiau hyd yma oedd fy nghyfranogiad yn y digwyddiad "cyfiawnder mewn diwrnod". Roedd y digwyddiad, a drefnwyd gan Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned (PACT), wedi'i anelu at blant ysgol i'w haddysgu am y system cyfiawnder troseddol a chanlyniadau troseddu drwy ddarparu fforwm rhyngweithiol oedd yn cynnwys chwarae rôl. Roeddwn hefyd yn bresennol yn seremoni wobrwyo'r Uchel Siryf, a oedd yn cydnabod cyfraniadau'r gymuned a phlant a phobl ifanc tuag at leihau ac atal troseddu.

Mynychais Fforwm Cyngor Tref a Chymuned Conwy i siarad am fy ngwaith ac i ateb cwestiynau; cefais hefyd fy ngwahodd i Ysgol Uwchradd Maelor yn Wrecsam i annerch y disgyblion ar fy ngwaith ac i ateb eu cwestiynau.

Ers cyfarfod diwethaf y Panel, yn ogystal â chwrdd â chynrychiolwyr y gymuned, partneriaid ac aelodau o'r cyhoedd, rwyf wedi cyflawni amryw o weithgareddau allweddol yn y cyfryngau. Roedd y rhain yn cynnwys:

Addewid y Comisiynydd i ddioddefwyr cam-drin yn y cartref

Penodi Prif Gwnstabl Cynorthwyol newydd

Erthygl yn y Daily Post "Anglesey: CCTV camera cuts would leave people living in fear"

Erthygl yn *Welsh Icons* "New Police Team Is Turning Tide Of Rural Crime In North Wales" a "Flood Disaster is Steep Learning Curve for Police Commissioner"

## Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae'r panel wedi gofyn am gael eu hysbysu am waith y Dirprwy Gomisiynydd. Y mae wedi ymrwymo'n llawn ac yn effeithiol i'm rhaglen waith heriol. Fel enghraifft o'i weithgareddau, ers cyfarfod diwethaf y panel ar 17 Mawrth, y mae wedi fy nghynorthwyo i gyflawni nifer o fy swyddogaethau statudol a gweinyddol gan gynnwys cadeirio cyfarfodydd a pharatoi ein hymatebion i ymgynghoriadau gan gynnwys ymgynghoriad CCAH 'Oversight and confidence - pilot study report findings and draft strategy' ac adolygu ein strategaeth cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae wedi mynychu nifer o ddigwyddiadau ar fy rhan gan gynnwys cynnal sesiwn holi ac ateb 'gwe-sgwrs'; rhoi'r prif anerchiad mewn sawl digwyddiad e.e. i lansio Canolfan Gymorth ac Adrodd Troseddau Casineb Cymru Gyfan gan Gymorth i Ddioddefwyr (8 Mai) a digwyddiad Sir y Fflint yn Cysylltu ar 16 Mai lle'r oedd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth hefyd yn bresennol. Mae fy Nirprwy hefyd wedi ymrwymo i ddatblygu ein proses gomisiynu mewn cysylltiad â chymorth i ddioddefwyr a'r rhaglen ymyrraeth cyffuriau (DIP). Mae wedi ymwneud a chraffu ar yr Heddlu o safbwynt canfyddiadau adroddiad AHEM ar gamdriniaeth ddomestig. Mae'n cyfarfod yn rheolaidd â nifer o ddeiliaid swyddi yn yr heddlu gan gynnwys y swyddog cyllid a swyddfa'r ystâd. Mae wedi cyfarfod â chadeirydd y Bwrdd Rheoli Ardal a'r PGC dros dro Simon Shaw am faterion Bwrdd Cynllunio Ardal ac wedi cwrdd â Blaen Swyddog Camddefnyddio Sylweddau dros dro. Gyda mi, mynychodd y Bwrdd Plismona Cymru Gyfan yng Ngwent, cyfarfod y Cydbwyllgor Archwilio ar 4 Ebrill a chyfarfod yn Wrecsam ar 29 Ebrill gyda'r Cynghorydd Hugh Jones am fusnes y Bwrdd Cymunedau Diogelach.

## Adroddiadau Arolygu AHEM

Ers cyfarfod diwethaf y Panel Heddlu a Throsedd, rwyf wedi derbyn dau adroddiad arolygu gan AHEM. Rwyf wedi cynnwys dolen isod i fy ymateb i'r adroddiad hwnnw:

**Busnes pawb: Gwella ymateb yr heddlu i gamdriniaeth ddomestig**

Ym mis Medi 2013, comisiynodd yr Ysgrifennydd Cartref AHEM i arolygu ymateb yr heddlu i drais a chamdriniaeth ddomestig. Cyhoeddodd AHEM adroddiad cenedlaethol a lleol i amlinellu'r prif ganfyddiadau. Nid yw camdriniaeth ddomestig yn dderbyniol ac rwy'n annog unrhyw un sy'n profi hyn i ofyn am help. Nid yw camdriniaeth ddomestig yn ffordd o fyw – mae'n drosedd. Rwyf wedi cyhoeddi fy ymateb i'r adroddiad arolygu.

**Cofnodi troseddau: Mater o ffaith – adroddiad interim**

Mae AHEM yn bwriadu cynnal arolygiad o'r ffordd y mae'r 43 o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr yn cofnodi data ar droseddu. Yr arolygiad hwn, sydd i'w gyflawni rhwng Chwefror ac Awst 2014, yw'r un mwyaf i AHEM ei gynnal erioed o gywirdeb data am droseddau. Yn Ebrill cyhoeddodd AHEM adroddiad interim ar ei gasgliadau o'r 13 heddlu a arolygwyd hyd hynny (gan gynnwys Gogledd Cymru, Gwent, Manceinion Fwyaf a Sir Gaer).

Roeddwn yn falch bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cael sgôr o 93% o ran riportio troseddau. Allan o 78 o achosion lle dylid bod wedi cofnodi trosedd, roedd 73 wedi cael eu cofnodi'n gywir.

Dyma'r gyfradd gydymffurfio orau gan unrhyw Heddlu yn y rhan yma o'r adroddiad arolygu. Mae hefyd yn bositif nodi, o'r troseddau treisio na chawsant eu cofnodi'n gywir, nad oedd yr un ohonynt yn achosion yng Ngogledd Cymru. Rwyf wedi cyhoeddi fy ymateb i'r adroddiad interim yma. Disgwylir adroddiad arolygu llawn ar gyfer Gogledd Cymru ym mis Mehefin.

**Rhaglen Arolygu AHEM**

Yn ddiweddar mae AHEM wedi arolygu Heddlu Gogledd Cymru fel rhan o Arolygiad Gwerthfawrogi'r Heddlu Rhan 4. Mae manylion llawn blaenraglen AHEM ar gael yma.

## Y Cydbwyllgor Archwilio

Cafodd y cydbwyllgor archwilio ei sefydlu gennyf i a'r Prif Gwnstabl yn unol â Chod Ymarfer Rheolaeth Ariannol ar gyfer y Gwasanaeth Heddlu. Cynhelir y cyfarfodydd yn gyhoeddus ac mae'r papurau ar gael ar-lein Yn y cyfarfod diwethaf paratôdd yr aelodau eu hadroddiad blynyddol cyntaf. Dyddiadau cyfarfodydd y Pwyllgor yn 2014 a 2015 yw:

- 28 Mai, 30 Gorffennaf, 23 Medi, 26 Tachwedd 2014
- 25 Chwefror, 27 Mai, 29 Gorffennaf, 30 Medi a 25 Tachwedd 2015

## Gohebiaeth

**Ffigurau gohebiaeth 1 Ionawr 2014 – 31 Mawrth 2014**

| ***Categori Gohebiaeth*** | ***Nifer*** |
|---|---|
| Adborth penodol ar y gwasanaeth plismona | 22 |
| Adborth cyffredinol ar y gwasanaeth plismona | 14 |
| Cwynion a gyfeiriwyd at yr Adran Safonau Proffesiynol | 7 |
| Materion staffio – camymddygiad, anafiadau yn y gwaith, tribiwnlysoedd apêl yr heddlu, gohebiaeth gan gymdeithasau staff a materion perthnasol eraill | 8 |
| Gohebiaeth gyffredinol | 139 |

## Adran Tri – Diweddariad ar weithredu a gytunwyd gyda'r Panel

Yn yr Adran hon rwyf am roi sylw i weithredoedd y cytunwyd arnynt eisoes gyda'r Panel.

## Diweddariad ar Gronfa Arloesi'r Swyddfa Gartref

Yn 2013/14 roeddem yn llwyddiannus gyda dau gais i gronfa arloesi'r heddlu:

- Cais unigol – i godi ymwybyddiaeth o ecsbloetio plant a gwella canlyniadau i bobl ifanc mewn perygl - £148,469
- Cais ar y cyd â Heddlu Sir Gaer – hyfforddiant a gweithrediadau drylliau tanio ar y cyd - £211,580

Hefyd, yn Ebrill 2014, cyflwynwyd y cynigion canlynol i gronfa arloesi'r heddlu:

- Fideo ar y corff: Mae fideo a wisgir ar y corff wedi bod yn llwyddiannus o ran lleihau achosion o drais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ac o ran darparu tystiolaeth pan aiff achosion gerbron y llys. Mae'n helpu i ddatrys cwynion di-sail neu faleisus yn gyflym; gellir ei ddefnyddio i nodi anghenion hyfforddiant a datblygu a hefyd i ddangos enghreifftiau o arfer da. Cais ar y cyd yw hwn gyda Heddlu Glannau Mersi a Gwasanaeth Erlyn y Goron.
- Teuluoedd Trwblus Sir y Fflint: Treulir amser ac adnoddau anghymesur yn delio â nifer cymharol fach o deuluoedd trwblus. Drwy adnabod y teuluoedd hyn ac ymyrryd yn fuan, mae'n bosibl lleihau'r galw am ymateb brys adweithiol. Cais yw hwn mewn partneriaeth â Chyngor Sir y Fflint, Gwasanaeth Prawf Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- Ymchwiliadau cudd ar y we: Amcangyfrifir nad yw tua 80% o droseddau ar y we'n cael eu riportio. Bydd y cais cydweithredol hwn â Heddlu Sir Gaer yn golygu y gallwn ehangu rôl yr Uned Troseddau Uwch-Dechnoleg i ymchwilio'n rhagweithiol i droseddau seiber-hwyluso a seiber-ddibynnol.
- Prosiect Gwyliedydd: Drwy weithio â Gwasanaeth Erlyn y Goron, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac amrywiaeth eang o gyrff y sectorau cyhoeddus a phreifat, nod y Prosiect Gwyliedydd yw lleihau achosion o ymosodiadau rhywiol yng Ngogledd Cymru. Cafodd prosiect tebyg ei gyflwyno i gronfa arloesi'r heddlu yn y cylch blaenorol, ond roedd yn aflwyddiannus. Ar ôl adborth, rydym wedi ailgyflwyno'r cais.

Rydym hefyd yn rhan o nifer o gynigion wedi eu harwain gan Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu eraill, sef:

- Lleihau'r Galw: Wedi'i arwain gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent, bydd y cais hwn yn y pen draw'n arwain at greu *ap* wedi'i ddylunio i gyfeirio'r cyhoedd ymlaen i'r gwasanaeth cywir.
- Storfa Dystiolaeth Ddigidol: Bydd hyn yn galluogi heddluoedd sy'n defnyddio NICHE i storio tystiolaeth, megis dogfennau a ffotograffau, yn electronig. Bydd ymchwiliadau traws-ffin yn haws; bydd heddluoedd yn symud o system bapur i system gyfrifiadurol; a bydd yn haws ac yn gynt cael gafael ar dystiolaeth ar gyfer achosion llys. Mae'r cais hwn yn cael ei arwain gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru.
- Troseddau Cefn Gwlad: Mae ardaloedd gwledig yn dioddef troseddau gwahanol i ardaloedd trefol. Drwy weithio â chydweithwyr ar draws Cymru a Lloegr ac yn y gymuned ffermio, byddwn yn gallu nodi'r tueddiadau a rhannu arferion gorau. Arweinir y bid hwn gan Gomisiynydd Heddlu a Throseddu Gogledd Sir Efrog.
- IOM Cymru, Cynllun Pathfinder Brysbennu Merched Cymru Gyfan: Mae merched sy'n troseddu'n fwy tebygol o aildroseddu ar ôl eu rhyddhau o'r carchar. Bydd y prosiect

hwn, wedi'i arwain gan Heddlu Gwent, yn darparu ymyriadau i ostwng y gyfradd aildroseddu.

- IOM Cymru, Cynllun Tagio GPS Cymru Gyfan: Wedi'i arwain gan Heddlu Dyfed-Powys, bydd y prosiect hwn yn gwella'r gwaith o reoli troseddwyr blaenoriaeth sy'n peri'r risg, y bygythiad a'r niwed mwyaf i'r gymuned.

## Diweddariad ar adolygu fformiwla ariannu'r heddlu

Y fformiwla ariannu yw'r dull a ddefnyddir i rannu cyllid y grant plismona i bob ardal. Mae'r fformiwla bresennol yn defnyddio model pedwar bloc tebyg i'r un ar gyfer awdurdodau lleol, gan ddefnyddio mesurau y credir eu bod yn berthnasol i'r heddlu.

Pan gafodd y model ei newid o'r fethodoleg flaenorol, er mwyn osgoi aflonyddwch sylweddol cafodd 'tampio' ei gyflwyno i esmwytho'r broses bontio. Oherwydd y rhaglen gyni barhaus, ni fu'n bosibl tynnu'r elfen 'tampio' eto. Tybiwyd fod symud at fformiwla newydd yn ffordd briodol ymlaen.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi y bydd fformiwla ariannu newydd yn cael ei gyflwyno o 2016/17 ymlaen, ac ar hyn o bryd ni allwn ragweld yn union beth fydd hyn yn ei olygu i ogledd Cymru. Rwyf wedi fy nethol gan Gomisiynwyr Cymru i eistedd ar y gweithgor cenedlaethol a fydd yn monitro'r mater hwn. Gan fod i'r fformiwla ariannu oblygiadau o ran y gyllideb a glustnodir ar gyfer plismona yng ngogledd Cymru, byddaf yn diweddaru'r Panel ar gyfnodau priodol yn y dyfodol.

## Gwybodaeth ystadegol am fyrgleriaethau (o gartrefi a heb fod o gartrefi)


Fel yr adroddwyd yng nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol Strategol ar 25 Mawrth 2014, yr heriau gweithredol presennol o hyd yw byrgleriaethau o dai a dwyn o siopau. Yn dilyn Adolygiadau Thematig o'r ddau gategori o droseddu, mae gweithrediad nifer o raglenni lleihau troseddu'n parhau i gael ei fonitro gan Bwyllgor Gweithrediadau'r Heddlu.

Dechreuodd byrgleriaethau o gartrefi a gofnodwyd godi ddechrau 2011/12, gan gyrraedd ei anterth yn Rhagfyr 2011. Yna gwelwyd newid positif yn 2012/13 gyda gostyngiad i lefelau tebyg i'r rhai blaenorol Mae newid system negyddol ers dechrau 2012/13 yn parhau, a dyma'r lefel normal bresennol.

Ni chafwyd unrhyw newidiadau system ers wythnos 1 2013/14 a dim signalau. Fodd bynnag, roedd byrgleriaethau o gartrefi yn is ar yr adeg hon y llynedd, gan arwain at gynnydd o 6.3% o un flwyddyn i'r llall.

| Week 52 | YTD | Last YTD | Change |
|---|---|---|---|
| Reported Crime | 1,660 | 1,562 | 6.3 % |
| Detections | 307 | 303 | 1.3 % |
| Detection Rate | 18.5 % | 19.4 % | -0.9 |


Mae'r graff isod yn dangos nifer y byrgleriaethau o gartrefi yn y gwahanol ardaloedd plismona yn 2013/2014.




Mae byrgleriaethau Heb fod o Gartrefi hefyd i'w gweld yn sefydlog drwy gydol y llynedd ac yng nghanlyniadau 2013/14, gyda nifer o wythnosau arbennig o isel yn ddiweddar yn arwain at newid system positif yn wythnos 44 a gostyngiad o 3.7% yn cael ei brofi o un flwyddyn i'r llall. Mae'r gyfradd ddatrys yn parhau i fod yn debyg i'r gyfradd yn 2012/13 gyda lleihad o ddim ond 0..2 pwynt canran.

| Week 52 | YTD | Last YTD | Change |
|---|---|---|---|
| Reported Crime | 2,880 | 2,991 | -3.7 % |
| Detections | 241 | 256 | -5.9 % |
| Detection Rate | 8.4 % | 8.6 % | -0.2 |

Mae'r graff isod yn dangos nifer y byrgleriaethau heb fod o gartrefi yn y gwahanol ardaloedd plismona yn 2013/2014.




## Dwyn o Siopau - Gwybodaeth Ystadegol

Bu cynnydd mewn dwyn o siopau yn genedlaethol dros y flwyddyn ddiwethaf.


Mae dwyn o siopau'n flaenoriaeth bwysig i'r Heddlu ac mae Heddlu Gogledd Cymru'n monitro'r tueddiadau er mwyn datblygu ymatebion priodol. Mae'r flaenoriaeth hon hefyd yn ystyried nifer yr achosion o ddwyn gan bobl sy'n troseddu am yr eildro neu fwy.

Mae'r tueddiad tymhorol bod dwyn o siopau a gofnodir yn uwch yn ystod misoedd yr haf ac yn gostwng i'r norm yn ystod misoedd y gaeaf yn parhau. Mae dwyn o siopau a gofnodir yng Ngogledd Cymru yn dangos cynnydd o 9.4% o un flwyddyn i'r llall ar hyn o bryd.

Yn 2013/14, cafwyd gostyngiad bychan o 1.7% yn y gyfradd ddatrys.

| Week 52 | YTD | Last YTD | Change |
|---|---|---|---|
| Reported Crime | 3,951 | 3,611 | 9.4 % |
| Detections | 2,739 | 2,564 | 6.8 % |
| Detection Rate | 69.3 % | 71.0 % | -1.7 |

Mae'r graff isod yn dangos nifer yr achosion o ddwyn o siopau yn y gwahanol ardaloedd plismona yn 2013/2014.




## Niferodd Swyddogion Heddlu

Bydd aelodau'r Panel wedi derbyn llythyr yn dangos manylion llawn y cynnydd o 51 yn y nifer o swyddi swyddogion heddlu ers 1 Ebrill 2013. Cafodd y swyddi eu nodi a phenodwyd swyddogion iddynt. Cafodd recriwtio yn ystod y flwyddyn ei gynnal er mwyn sicrhau bod y swyddi hyn yn cynrychioli ychwanegedd go iawn er mwyn cynnig mwy o opsiynau i ganolbwyntio ar leihau troseddu drwy fesurau atal a lleihau niwed i gymunedau. Mae'r gwir niferoedd wedi aros yn uwch na'r niferoedd cynlluniedig drwy'r flwyddyn, gan ddangos ein bod nid yn unig wedi cynyddu'r gyllideb i ariannu hyn ond hefyd wedi gallu darparu'r ychwanegedd hwn drwy gydol y flwyddyn. Mae hefyd yn werth i'r Panel nodi bod y swyddi hyn yn parhau i fod yn rhan o'r niferoedd cynlluniedig ar gyfer 2014/15. Mae copi o'r llythyr a ddrafftiwyd gan y comisiynydd yn y cyswllt hwn hefyd wedi'i gynnwys ar agenda'r cyfarfod.

EITEM RHAGLEN 7b

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
2013/14




SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

# Cynnwys

**Cyflwyniad** ........ **02**

**Adran Un: Y Cynllun Heddlu a Throsedd** ........ **03**

Lleihau Trosedd ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ........ **07**

Darparu gwasanaeth o safon sy'n bodloni anghenion ein cymunedau ........ **08**

Troseddau Cefn Gwlad........ **08**

**Adran Dau: Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd** ........ **12**

Arian a Chyllid ........ **13**

Cyllideb yr Heddlu ........ **13**

Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ........ **13**

Atodiad A – Dosbarthiad Cronfa'r Comisiynydd 2013/14 ........ **14**

# Cyflwyniad



Comisiynydd Heddlu a Throsedd
**Winston Roddick CB QC.**

Cefais f'ethol yn Gomisiynydd Heddlu a Throsedd cyntaf Gogledd Cymru ym mis Tachwedd 2012. Mae rôl y Comisiynydd, sydd wedi disodli Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru, yn rhoi dyletswydd arnaf i ddarparu gwasanaeth heddlu effeithiol ac effeithlon sy'n dangos gwerth am arian, ac, yn bennaf oll, yn gostwng trosedd.

Dyma'r ail adroddiad blynyddol i mi ei gynhyrchu yn unol â gofynion Adran 12 Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol (Y Ddeddf). Dyma'r adroddiad cyntaf i edrych ar flwyddyn lawn o weithgaredd a bydd yn canolbwyntio ar faterion a ymgymerwyd â nhw yn ystod 2013/14.

Ers cyhoeddi fy adroddiad blynyddol diwethaf credaf fy mod wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran gosod cyfeiriad strategol ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru ar ran y cyhoedd. Rydw i wedi gweithio i ddatblygu ymgysylltiad â'r cyhoedd ac i ddarparu gwerth am arian ar gyfer y cyhoedd.

Roeddwn yn falch â chanlyniadau fy arolwg cyhoeddus cyntaf, canlyniadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Ymatebodd dros 87.5% o'r rhai a holwyd eu bod yn teimlo'n ddiogel yng ngogledd Cymru a dim ond 6% nododd nad ydynt yn gweld Swyddog Heddlu yn wythnosol wrth fyw eu bywydau pob dydd.

Mae lefelau trosedd yn parhau i ostwng yng ngogledd Cymru, gyda gostyngiad o 2.6% sy'n adeiladu ar y gostyngiad o 11.6% a welwyd y llynedd. Roeddwn yn siomedig â'r canlyniad arolwg, y comisiynais ar y cyd â'r Heddlu, nad yw pobl yn gweld yn llawn y gostyngiad hwn mewn trosedd. Fodd bynnag, mae gostyngiad pellach mewn lefelau trosedd i'w groesawu a byddaf yn parhau i godi ymwybyddiaeth am y cyrhaeddiad hwn.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, penodais Ddirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd cyntaf Gogledd Cymru. Penodwyd Julian Sandham o ganlyniad i broses benodi dryloyw a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr etholedig o bedwar o'r awdurdodau lleol. Hoffwn ddiolch iddo am y gwaith caled y mae wedi'i wneud hyd yma a hoffwn ddiolch i weddill fy nhîm yn ogystal.

Hoffwn hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'r Prif Gwnstabl a'i dîm am eu hymdrechion parhaus i gadw gogledd Cymru yn ddiogel ac edrychaf ymlaen at adeiladu ar y cynnydd hwn yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.



**Winston Roddick CB QC**
**Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

# Adran Un: Y Cynllun Heddlu a Throsedd

Fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, arna' i y mae'r cyfrifoldeb statudol am gyfeiriad strategol plismona yng ngogledd Cymru a'r Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am faterion gweithredol.

Mae'r cyfeiriad strategol hwnnw wedi'i amlinellu yn y Cynllun Heddlu a Throsedd, cyhoeddwyd y fersiwn gyntaf ym mis Mawrth 2013 a chafwyd fersiwn derfynol o'r Cynllun diwygiedig ym mis Mawrth 2014 yn dilyn ymgynghoriad â'r cyhoedd a'r Panel. Bydd yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y cynnydd yn erbyn y cynllun Heddlu a Throsedd cyntaf.

Roedd gan Gynllun Heddlu a Throsedd 2013/14 bedwar amcan allweddol sy'n darparu fframwaith ar ar gyfer datblygu a gwella'r Heddlu mewn ffordd fydd yn lleihau trosedd ac yn sicrhau bod pobl yn ddiogel yn eu cartrefi ac yn saff mewn mannau cyhoeddus.

Yr Amcanion Heddlu a Throsedd yng Nghynllun 2013/14 oedd:

1. Lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
2. Amddiffyn pobl a lleihau niwed.
3. Darparu Gwasanaeth o Ansawdd sy'n bodloni anghenion ein cymunedau.
4. Sicrhau gweithlu trefnus, medrus a arweinir yn dda


Sefydlais hefyd dri chanlyniad strategol o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd cyntaf, sef: Diogelwch yn y Cartref; Bod yn saff mewn mannau cyhoeddus; Plismona Gweladwy a Hygyrch.

# Y Canlyniadau Strategol

Nodais o fewn y Cynllun Heddlu a Throsedd y canlyniadau yr hoffwn eu darparu ar gyfer gogledd Cymru ac ymrwymais hefyd i gomisiynu arolwg annibynnol er mwyn asesu'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r canlyniadau hynny. Mae'r arolwg cyntaf wedi'i gynnal ac mae'r canlyniadau llawn i'w gweld ar fy ngwefan. Gan mai dyma'r arolwg cyntaf, does dim i'w gymharu ag ef ar hyn o bryd, rwy'n bwriadu cynnal arolwg pellach yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf er mwyn gallu meincnodi yn erbyn yr arolwg cyntaf.

## Teimlo'n ddiogel


Gofynnwyd i ymatebwyr **pa mor ddiogel yr oeddent yn ei deimlo yn eu cartrefi eu hunain.** Nododd 96.3% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel neu'n eithaf diogel, tra nododd 3.6% eu bod yn teimlo'n anniogel.




Dim ond 3.6% o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn teimlo ychydig yn anniogel neu'n anniogel iawn yn eu cartref, a'r prif resymau dros hyn ydi:-

- **Profiad drwg yn flaenorol** **30%**
- **Ardal wael / ardal anniogel** **19%**
- **Rhesymau personol (anabledd ayyb)** **15%**
- **Ofn byrgleriaeth/rhywun dorri i mewn** **15%**
- **Cymysgedd o ddiwylliannau/pobl** **13%**
- **Y genhedlaeth ifanc** **10%**
- **Gwasanaeth Heddlu gwael** **10%**


Gofynnwyd i ymatebwyr **pa mor ddiogel yr oeddent yn ei deimlo yn eu hardaloedd lleol** yn ystod **y dydd** ac yn ystod **y nos**. Nododd 97.2% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n eithaf diogel yn ystod y dydd, tra nododd 2.5% eu bod yn teimlo'n anniogel. Roedd hyn 0.9% yn is na'r nifer a nododd eu bod yn teimlo'n anniogel yn eu cartrefi eu hunain.




Dim ond 2.5% o'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn teimlo ychydig yn anniogel neu'n anniogel iawn yn eu hardal yn ystod y dydd, a'r prif resymau dros hyn ydi:-

- **Cymysgedd o ddiwylliannau/pobl 29%**
- **Ardal wael / ardal anniogel 22%**
- **Profiad drwg yn flaenorol 21%**
- **Y genhedlaeth ifanc 20%**
- **Camddefnyddio sylweddau 13%**


Nododd 71.1% o ymatebwyr eu bod yn teimlo'n ddiogel iawn neu'n eithaf diogel yn eu hardal **yn ystod y nos**, tra nododd 24.2% eu bod yn teimlo'n anniogel.





Fe ddywedodd bron i chwarter (24%) o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo ychydig yn anniogel neu'n anniogel iawn ar y stryd yn eu hardal leol yn ystod y nos, a'r prif resymau dros hyn ydi:-

- **Grwpiau yn loetran o gwmpas yr ardal 42%**
- **Teimlo'n anniogel yn gyffredinol 25%**
- **Ofn cael eich mygio/ymosodiad corfforol 17%**
- **Diffyg goleuadau stryd 15%**
- **Ofn y tywyllwch/nos 15%**
- **Ofn mynd allan ar eich pen eich hun 14%**
- **Trosedd/anrhefn cyffredinol yn yr ardal 13%**

Holwyd ymatebwyr hefyd am eu **teimlad cyffredinol o ddiogelwch yng ngogledd Cymru**. Nododd 87.5% eu bod un ai'n teimlo'n ddiogel iawn neu'n eithaf diogel, gyda 10.8% yn nodi eu bod yn teimlo'n anniogel.




Holwyd yr ymatebwyr am eu barn am lefelau trosedd yng ngogledd Cymru. Roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn meddwl bod lefelau trosedd wedi 'aros tua'r un fath', gyda 16.4% yn nodi nad oeddent yn gwybod.





## Gweledodd a hygyrchedd yr Heddlu


Holwyd ymatebwyr i'r arolwg am eu safbwyntiau am hygyrchedd yr heddlu. Gofynnwyd iddynt ba mor aml yr oeddent yn teimlo eu bod yn gweld swyddog heddlu fel rhan o'u hwythnos arferol. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn cofio gweld **swyddogion heddlu** yn ystod wythnos arferol, un ai weithiau neu yn aml. Dim ond 6% o ymatebwyr nododd nad oeddent byth yn gweld swyddog heddlu fel rhan o'u hwythnos arferol.




Holwyd ymatebwyr hefyd am eu safbwyntiau am weledadd **SCCH**. Roedd dros hanner yr ymatebwyr yn cofio gweld SCCH yn ystod wythnos arferol, un ai weithiau neu'n aml. Nododd 14.2% nad oeddent byth yn gweld SCCH fel rhan o'u hwythnos arferol.



Holwyd ymatebwyr hefyd am **hygyrchedd** yr heddlu drwy ddulliau amrywiol (gan gynnwys y llinell ddifrys a datblygiadau eraill megis cyfryngau cymdeithasol). Yn gyffredinol, gwelir gwasanaethau'r heddlu fel rhai hygyrch iawn / eithaf hygyrch.




## Lleihau troseddau seiliedig ar y dioddefwr

Gwelwyd gostyngiad yn y rhan fwyaf o fathau o droseddau o fewn lefelau perfformiad 2013/14, gyda 874 (gostyngiad o 2.6%) yn llai o ddioddefwyr. Er bod y gostyngiad yn llai nag yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf rydw i dal yn falch â pherfformiad cyffredinol yr Heddlu a'r gostyngiad parhaus mewn lefelau trosedd. Mae gostyngiadau eleni yn adeiladu ar ffigyrau'r llynedd (2012/13 bod 4,381 yn llai o ddioddefwyr troseddau seiliedig ar y dioddefwr gostyngiad o 11.6%).

Mae'r Prif Gwnstabl a'r Heddlu wedi gweithio'n ddiflino er mwyn lleihau trosedd yn ystod 2013/14 drwy weithredu y cynllyn lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Rwy'n gobeithio y bydd y Prif Gwnstabl yn adeiladu ar hyn ymhellach yn ystod y flwyddyn nesaf.

- Cafwyd gostyngiad o 2.6% mewn troseddau seiliedig ar y dioddefwr,874 yn llai o droseddau
- Cafwyd gostyngiad o 6.0% mewn troseddau trais gydag anaf, 254 yn llai o droseddau
- Cafwyd cynnydd o 4.6% mewn troseddau heb anaf, 189 yn fwy o droseddau
- Cafwyd cynnydd o 12.3% mewn troseddau trais rhywiol, 37 yn fwy o droseddau
- Cafwyd cynnydd o 0.4% mewn troseddau rhywiol, 2 yn fwy o droseddau
- Cafwyd cynnydd o 6.0% mewn troseddau byrgleriaeth o annedd, 93 yn fwy o droseddau
- Cafwyd gostyngiad o 3.8% mewn troseddau byrgleriaeth heb fod o annedd, 113 yn llai o droseddau
- Cafwyd gostyngiad o 12.8% mewn troseddau ysbeiliad, 19 yn llai o droseddau.
- Cafwyd gostyngiad o 8.6% mewn troseddau cerbyd, 223 yn llai o droseddau.
- Cafwyd cynnydd o 9.5% mewn troseddau dwyn o siopau, 342 yn fwy o droseddau.
- Cafwyd gostyngiad o 6.3% mewn troseddau caffael arall, 371 yn llai o droseddau
- Cafwyd gostyngiad o 7.5% mewn troseddau difrod troseddol a llosgi bwriadol, 558 yn llai o droseddau
- Cafwyd gostyngiad o 4.7% mewn achosion o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, 1,276 yn llai o ddigwyddiadau.

## Lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae'r Prif Gwnstabl wedi parhau i weithredu rhaglen lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yr heddlu. Mae'r gostyngiad o 2.6% yn adeiladu ar y gostyngiad o 11.6% yn 2012/13. Gwelwyd cynnydd yn yr achosion o fyrgleriaeth domestig yng ngogledd Cymru yn 2013/14. Mewn ymateb i hyn mae'r Prif Gwnstabl wedi rhoi Ditectif Uwcharolygydd yn gyfrifol am gydlynu gwaith y grŵp a sefydlwyd o fewn yr heddlu er mwyn lleihau lefelau byrgleriaeth. Rwy'n fodlon ei fod yn rhoi'r sylw a'r adnoddau priodol i hyn.

Mae'r Heddlu hefyd yn ehangu datblygiad plismona yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn sicrhau bod gweithgareddau yn canolbwyntio ar faterion penodol a bod mentrau sy'n lleihau trosedd mewn modd effeithiol yn cael eu cydnabod a'u defnyddio yn ehangach. Roedd gweithgareddau yn ystod 2013/14 yn cynnwys adolygu ymgyrch Tricep. Sefydlwyd ymgyrch Tricep ym mis Tachwedd 2012; gan ddefnyddio dulliau dadansoddi; fe wnaeth yr Heddlu adnabod rhannau o Orllewin Y Rhyl lle roeddem fwyaf prysur ac ar ba adegau o'r dydd. O ganlyniad, cafodd ymatebion plismona wedi'u targedu eu datblygu drwy anfon swyddogion heddlu a swyddogion cefnogi cymuned yr heddlu ar batrolau gweledol amlwg yn y lleoliadau hynny. Y nod oedd atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a thawelu meddyliau aelodau o'r cyhoedd. Mae nifer y mannau problemus o ran trosedd yng ngorllewin y Rhyl wedi lleihau o saith i bedwar gyda nifer y galwadau i'r heddlu wedi gostwng 18% mewn chwe mis. Mae'r hyn sy'n cael ei ddysgu o'r cynllun peilot hwn wedi cael ei ymgorffori yn y nghynllun lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yr heddlu 2014/15.

Mae gwaith gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael â materion trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi datblygu yn ystod 2013/14. Mae Bwrdd Cymunedau Diogelach Gogledd Cymru wedi gorffen Cynllun drafft Diogelwch Cymunedol Gogledd Cymru, a fydd yn rhoi cyfeiriad strategol pellach i gefnogi gwaith partneriaeth yn yr ardal hon.

## Amddiffyn pobl a lleihau niwed

Mae Tîm Amethyst, tîm ymchwilio i droseddau rhyw ac achosion o drais rhywiol, bellach wedi sefydlu ei hun o fewn strwythur yr Heddlu. Mae'r datblygiad hwn, heb os, wedi cynorthwyo o ran ehangu'r gwasanaeth y bydd dioddefwyr y mathau hyn o droseddau'n ei dderbyn.

Mae'r gwaith i sefydli canolfan ddiogelu Amlasiantaeth (MASH) wedi creu sylfaen gryf ar gyfer y dyfodol. Y bwriad yn wreiddiol oedd sefydlu'r ganolfan MASH yn Wrecsam, ond rydym yn falch iawn bod hyn bellach wedi'i ehangu i gynnwys Sir y Fflint hefyd. Rydw i wedi ymweld â'r ganolfan newydd ac roedd y gwaith sy'n cael ei ddatblygu yno wedi creu argraff arnaf ac rwy'n gweld y bydd ganddo botensial mawr fel y dyfodol er mwyn cydweithio i leihau niwed.

Mae'r Heddlu wedi sefydlu dull diogel o asesu cydymffurfiad yn erbyn y Gofyniad Plismona Strategol (SPR).

Rydw i wedi parhau i ddarparu cefnogaeth ariannol i raglen cymorth ar gyfer troseddwyr sydd wedi cael problemau camddefnyddio sylweddau sy'n cyfrannu at eu hymddygiad troseddol. Mae'r gwaith yn cynnwys rhaglen 'profi wrth arestio' a gweithdrefn atgyfeirio ar ôl arestio ar gyfer y rhai hynny sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau.

## Darparu gwasanaeth o ansawdd sy'n bodloni anghenion ein cymunedau

Mae gwrando ar safbwyntiau pobl gogledd Cymru yn fy ngalluogi i gynrychioli'r safbwyntiau hynny o fewn materion plismona. Rydw i wedi parhau i ymgysylltu â chymunedau ledled gogledd Cymru ac wedi defnyddio'r adborth i ddatblygu gwasanaethau priodol megis y tîm troseddau cefn gwlad.

Fel rhan o'r arolwg i fesur syniadau a theimladau pobl am ddiogelwch, fe wnes i hefyd gynnwys cwestiwn am ymwybyddiaeth o fy rôl. Does gen i ddim i gymharu'r canlyniadau ag ef ar hyn o bryd, fodd bynnag o ystyried yr amser cyfyngedig mae Comisiynwyr yr Heddlu wedi bod yn eu swyddi, mae hwn yn ddechrau cymharol gadarnhaol ac mae'n rhoi ffocws clir ar gyfer fy ngwaith o ymgysylltu a chyfathrebu â'r cyhoedd.

| | Cyfanswm |
|---|---|
| | (n=3026) |
| | % |
| | |
| **Ymwybodol** | 44.5 |
| **Anymwybodol** | 55.5 |
| | |

## Trosedd Cefn Gwlad

Lansiwyd y tîm troseddau cefn gwlad yn 2012/13, yn dilyn trafodaethau helaeth gyda rhanddeiliaid. Mae'r tîm yn cynnwys swyddogion heddlu, swyddogion cefnogi cymuned yr heddlu a swyddogion gwirfoddol. Mae'r tîm wedi gweithio'n galed i adeiladu perthnasau cryfach â'r cymunedau gwledig er mwyn cynorthwyo'r gwaith o leihau trosedd.

Mae'r tîm newydd wedi cymryd agwedd newydd tuag at y pwnc o drosedd cefn gwlad ac wedi gweithio ar fentrau i addysgu ac atal y mathau unigryw hyn o droseddau drwy ymgysylltu'n agos â'n hundebau ffermio a thrwy fod yn bresenoldeb gweladwy mewn arwerthiannau anifeiliaid a sioeau lleol. Maent hefyd wedi casglu ystadegau dyddiol manwl ar y mathau o droseddau cefn gwlad a lle maent yn digwydd sy'n eu galluogi i ddadansoddi patrymau ac amseroedd troseddau a gweithio'n fwy craff, gyda gweithrediadau rhagweithiol a gweithgareddau atal.

## Darparu gweithlu trefnus, medrus a arweinir yn dda

Mae'r Prif Gwnstabl wedi cyflwyno 51 o swyddi newydd ar gyfer swyddogion heddlu ac mae pobl wedi eu penodi yn y swyddi hynny:

- Ardal Ddwyreiniol - 23 Swyddog (9 Gogledd Sir y Fflint, 2 De Sir y Fflint, 2 Wrecsam Wledig, 9 Tref Wrecsam, 1 Tîm Troseddau Ieuenctid).
- Ardal Ganolog - 6 Swyddog (2 swyddog Ardal Gorllewin Conwy Arfordirol, 2 Ardal Conwy a Dinbych Wledig, 2 Ardal Sir Ddinbych Arfordirol ac Abergele).
- Ardal Orllewinol - 8 Swyddog (2 Ynys Môn, 2 De Gwynedd, 4 De Gwynedd).
- Tîm Amethyst - 6 Ditectif Gwnstabl.
- Swyddogion Cyswllt Cefn Gwlad - 3 Swyddog.
- Camdriniaeth ddomestig, swyddogion mewn lifrai a dillad plaen - 3 Swyddog.
- Gwaith rhagweithiol yn seiliedig ar wybodaeth er mwyn atal a datgelu trosedd - 2 Swyddog mewn lifrai.

Cefais wahoddiad gan y Prif Gwnstabl i gymryd rhan yn y broses o benodi Prif Gwnstabl Cynorthwyol newydd, bydd Richard Debicki yn ymuno â'r tîm Prif Swyddogion ym mis Mehefin. Bydd Richard yn gaffaeliad i'r tîm wrth fynd ati i ddarparu gwasanaeth plismona ar gyfer gogledd Cymru.

Nid yn unig yw unplygrwydd y gwasanaeth heddlu yn rhywbeth sy’n bwysig i mi ond mae hefyd yn rhywbeth sydd wrth wraidd y model plismona Prydeinig. I’r diben hwn, rwy’n cyfarfod bob chwarter â’r adran safonau proffesiynol a’r Prif Swyddog sy’n arwain ar hynny, y Dirprwy Brif Gwnstabl, er mwyn adolygu’r camau a gymerwyd gan yr Heddlu.

Bob blwyddyn , bydd y Prif Gwnstabl yn comisiynu arolwg diwylliannol er mwyn ymchwilio i les ac agweddau’r gweithlu. O ganlyniad i’r arolwg bydd cynlluniau gweithredu, er mwyn ateb unrhyw bryderon neu batrymau, yn cael eu comisiynu. Mae’r broses hon wedi creu argraff arnaf a buaswn yn annog sefydliadau eraill i ymgymryd â phroses debyg o gynnal arolwg blynyddol.

## **Y COMISIYNYDD** BLWYDDYN O YMGYSYLLTU

### **EBRILL** 2013

Mynychais nifer o ddigwyddiadau yn ystod y mis hwn gan gynnwys gwahoddiad i fod yn siaradwr gwadd yn Nigwyddiad Un Llais ar gyfer cynghorau tref cymunedol, cyfarfod â Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru, cyfarfod â chynghorau sir Ynys Môn a Sir y Fflint.

### **MAI** 2013

Ymwelais â'r prosiect PentrePeryglon, nod y prosiect hwn yw darparu adnodd addysgol ar gyfer pobl ifanc er mwyn cynorthwyo dealltwriaeth o ddiogelwch. Ers ei agoriad yn 2005, mae'r prosiect wedi addysgu dros 50,000 o ymwelwyr. Cefais wahoddiad hefyd i fod yn siaradwr gwadd yng nghynhadledd flynyddol MAPPA (Multi-Agency Public Protection Arrangements).

### **MEHEFIN** 2013

Mynychais ddigwyddiad cyflwyniadol gyda Chyngor Mwslimiaid a Chymdeithas Islamaidd Gogledd Cymru. Fe wnes i hefyd gyfarfod â Gweinidog Llywodraeth Leol Cymru a'r Dirprwy Weinidog dros wasanaethau cymdeithasol, grŵp gogledd Cymru o Aelodau Seneddol Llafur a rhoddais dystiolaeth fel rhan o'r comisiwn Silk.

### **GORFFENNAF** 2013

Cynhaliais fy nghymhorthfa gyhoeddus cyntaf ym Mae Colwyn, gan roi cyfle i'r cyhoedd gyfarfod â mi er mwyn trafod unrhyw faterion neu ofyn unrhyw gwestiynau. Cefais wahoddiad hefyd i fod yn siaradwr gwadd yng Nghynhadledd Genedlaethol yr Uchel Siryf ac ymunais ag Aled Roberts AC ar ymweliad o Cymorth i Ferched.

### **AWST** 2013

Rhoddodd misoedd yr haf gyfle i mi fynychu nifer o sioeau blynyddol gan gynnwys Sioe Dinbych a Fflint, Sioe Amaethyddol Môn a'r Eisteddfod Genedlaethol. Roedd y tîm troseddau cefn gwlad hefyd yn bresennol yn y sioeau amaethyddol.

### **MEDI** 2013

Roeddwn yn falch iawn o gael mynychu cyflwyniad gan SCCH yn Wrecsam am y 'dechnoleg Mapio Gwledig' newydd a gyflwynwyd yn ddiweddar er mwyn cynorthwyo swyddogion mewn ardaloedd gwledig. Roedd y gwaith hwn yn dystiolaeth o waith arloesol o ran cydweithio â chymunedau a thynnwyd sylw at y gwaith hwn yn y Tŷ Cyffredin hefyd. Cychwynnais ar y gwaith o ymgynghori ar y cynllun heddlu a throsedd diwygiedig a mynychais Ddiwrnod Cofio Cenedlaethol yr Heddlu yng Nghaerdydd.

**2013**

### HYDREF 2013

Cafwyd anerchiad gan yr Ysgrifennydd Cartref yng nghyfarfod cenedlaethol y Comisiynwyr Heddlu a Throsedd y mis hwn. Yn lleol, ymwelais â'r gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn gweld y gwaith maent yn ei wneud er mwyn lleihau troseddu a'r niferoedd sy'n aildroseddu.

### TACHWEDD 2013

Mynychais gyfarfod gydag Undeb yr Amaethwyr er mwyn derbyn adborth cychwynnol ar waith y tîm troseddau cefn gwlad ac roeddwn yn falch o glywed bod y tîm eisoes wedi dechrau cael effaith. Cefais wahoddiad hefyd i annerch cyfarfod o gynrychiolwyr o ffederasiwn yr heddlu.

### RHAGFYR 2013

Ar ddechrau Rhagfyr, dioddefodd tref arfordirol Y Rhyl lifogydd difrifol a achosodd i nifer o drigolion orfod gadael eu cartrefi a cheisio lloches yn yr ysgol uwchradd leol. Ar noson y llifogydd, mynychais yr ysgol uwchradd er mwyn dangos fy nghefnogaeth i'r dioddefwyr.

**2014**

### IONAWR 2013

Mynychais noson wobrwyo gwasanaeth hirdymor er mwyn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae staff a swyddogion wedi'i wneud er mwyn sicrhau gogledd Cymru diogelach. Rydw i wedi mynychu nifer o'r nosweithiau hyn ac mae'n bwysig fy mod yn cymryd yr amser i ddiolch i bobl am yr hyn maent wedi'i wneud.

### CHWEFROR 2013

Cefais wahoddiad gan Goleg y Rhyl i fynychu'r coleg ac i weld yr adnoddau sydd ar gael i'r coleg a'r cyfleoedd maent yn eu darparu i'w myfyrwyr. Mynychais gyfarfod ar gyfer y trydydd sector er mwyn ymgynghori ar yr amcanion heddlu a throsedd a hynny fel rhan o'r gwaith parhaus i adolygu'r cynllun heddlu a throsedd.

### MAWRTH 2013

Cefais wahoddiad i ymweld â'r 'Warehouse Project' er mwyn gweld y gwaith maent yn ei wneud yn y gymuned leol ac er mwyn atal pobl ifanc rhag mynd i mewn i'r system gyfiawnder troseddol. Fe wnes i hefyd annerch myfyrwyr yn Ysgol John Bright am fy rôl. Fe wnes i hefyd gynnal cynhadledd yn edrych ar daith y dioddefwr yng ngogledd Cymru.

# Adran Dau: Cyflawni rôl y Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Fy swyddogaethau craidd yw:

- sicrhau heddlu effeithiol ac effeithlon ar gyfer gogledd Cymru
- dal y Prif Gwnstabl yn atebol am y modd y mae'n arfer ei swyddogaethau
- dwyn partneriaid diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol ynghyd
- cydweithio â'r comisiynwyr heddlu a throsedd eraill a llunio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd yr heddluoedd

Rwyf wedi ymdrechu i berfformio'r cyntaf o'r swyddogaethau hyn drwy weithredu'r strategaeth a nodais yn fy nghynllun heddlu a throsedd 2013/14 ac, yn benodol, drwy gyflawni'r pedwar amcan heddlu a throsedd, sef lleihau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, diogelu pobl a lleihau niwed, darparu gwasanaeth o ansawdd sy'n bodloni anghenion ein cymunedau a hyrwyddo gweithlu trefnus, medrus a arweinir yn dda. Er ei bod yn rhy gynnar ar hyn o bryd i ddweud a wyf wedi llwyddo i gyflawni'r swyddogaeth hon ai peidio, mae arwyddion fy mod yn llwyddo. Rwy'n derbyn bod sawl ffordd o fesur effeithiolrwydd, ond mae'n debyg mai'r gostyngiad sylweddol mewn trosedd yw'r dangosydd gorau.

Fe gymerais ran yn Adolygiad y Swyddfa Archwilio Genedlaethol o Atebolrwydd yr Heddlu a dynnodd sylw at y cynnydd yn nifer y bobl oedd yn cysylltu â mi drwy ohebiaeth o'i gymharu â gydag Awdurdod yr Heddlu. Rydw i hefyd wedi cymryd rhan mewn adolygiad o fy nhrefniadau ymgysylltu â Swyddfa Archwilio Cymru, a nododd arferion da ac a roddodd adborth cadarnhaol ar ddatblygiad pellach fy ngweithgareddau i ymgysylltu.

Y prif gyfrwng yr wyf yn ei ddefnyddio i ddal y prif gwnstabl yn atebol yw'r Bwrdd Gweithredol Strategol yr wyf yn ei gadeirio ac y mae'r prif gwnstabl a'i uwch swyddogion yn aelodau ohono. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn y cyfarfodydd byddaf yn derbyn adroddiadau ar sawl agwedd ar swyddogaethau'r prif gwnstabl gan gynnwys yn benodol ystadegau trosedd ar gyfer y cyfnod yn union cyn y cyfarfod, y crynodeb o berfformiad sy'n cynnwys gwybodaeth leol am berfformiad, canlyniadau arolygon swyddogion a staff ac arolygon o fodlonrwydd y cyhoedd. Nid yw f'ymgysylltiad â'r Prif Gwnstabl a'i uwch aelodau o staff yn gyfyngedig i gyfarfodydd yn y Bwrdd Strategol Gweithredol – mae ymgysylltiad parhaus ar ddarpariaeth yn erbyn yr amcanion cytunedig a chyhoeddir gwybodaeth ar gyfnodau rheolaidd. Mae'r deunydd a gyhoeddir yn cynnwys f'arsylwadau a'm sylwadau i, a gweithredoedd cytunedig yn deillio o'r crynodebau o berfformiad.

Yn atgyfnerthu'r swyddogaeth oruchwyliol hon mae fy nghyfarfodydd rheolaidd ag Arolygwyr Heddluoedd ei Mawrhydi a phennaeth Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a'u hadroddiadau ar berfformiad Heddlu Gogledd Cymru.

Rydw i wedi datblygu fy ngwaith partneriaeth ymhellach yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rwy'n parhau i gynrychioli Cymru ar y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol yn ogystal â bod yn rhan o'r Byrddau Cyfiawnder Troseddol lleol ac ar lefel Cymru gyfan. Mae fy Nirprwy bellach yn aelod o Fwrdd Cynllunio Ardal Gogledd Cymru ac rwy'n parhau i weithio â Bwrdd Arweinyddiaeth a Chymunedau Diogelach Gogledd Cymru er mwyn ceisio adnabod cyfleoedd i gydweithio a rhannu gwybodaeth berthnasol.

Mae cydweithio â'r comisiynwyr heddlu a throsedd eraill a llunio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd yr heddluoedd yn swyddogaeth bwysig arall ac mae'n cyfrannu tuag at ddarparu'r Gofyniad Plismona Strategol. Rwyf wedi ymdrechu i gyflawni'r swyddogaeth bwysig hon drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda chomisiynwyr eraill Cymru a'u prif gwnstabliaid er mwyn trafod buddiannau cyffredin a materion trawsffiniol yn benodol. Yr wyf yn cyfarfod yn rheolaidd â chomisiynwyr gogledd orllewin Lloegr i drafod materion trawsffiniol a materion cyffredin eraill. Mae'r gwaith cydweithio rhwng Heddlu Gogledd Cymru a heddluoedd gogledd orllewin Lloegr yn arbennig o bwysig i blismona yng ngogledd Cymru, oherwydd mae ein daearyddiaeth yn golygu ein bod yn rhannu blaenoriaethau ar gyfer mynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig, yn ogystal â darparu cydweithredu gweithredol ar gyfer gwasanaeth yr heddlu.

# Arian a Chyllid

## Cyllideb yr Heddlu

Rwy'n gyfrifol am bennu'r arian fydd ar gael i'r prif gwnstabl i'w alluogi i ddarparu plismona yng ngogledd Cymru. Clustnodwyd cyllideb net o £141 miliwn ar gyfer 2013/14

Daw 56% o gyllid yr heddlu o'r grant plismona a geir gan y Swyddfa Gartref a darperir 44% gan drethdalwyr lleol. Bydd y cyfrifon drafft terfynol yn cael eu cyflwyno i'w harchwilio ym mis Mehefin 2014 ac yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan. Bydd y cyfrifon wedi eu harchwilio ar gael erbyn diwedd mis Medi.

Mae hon wedi bod yn flwyddyn heriol yn ariannol, a bydd y rhaglen adolygiadau, sydd wedi bod yn ei le ers 2010/11 yn debygol o barhau tan o leiaf 2017/18. Er gwaethaf llai o adnoddau, mae'r prif gwnstabl wedi parhau i ddarparu gogledd Cymru â gwasanaeth heddlu effeithiol ac yn ystod 2013/14 gwnaeth gynnydd sylweddol er mwyn sicrhau y gellir darparu'r arbedion angenrheidiol ar gyfer 2014/15. Mae cynlluniau er mwyn sicrhau arbedion pellach yn y blynyddoedd sydd i ddod ar y gweill ar hyn o bryd.

## Darparu Strategaeth yr Ystâd

Rydw i wedi goruchwylio'r cynnydd sylweddol sydd wedi'i wneud o ran darparu Strategaeth Ystâd 2013-2016 Heddlu Gogledd Cymru. Mae'r uchafbwyntiau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys agoriad swyddogol gorsaf heddlu Llangefni, a fydd nid yn unig yn galluogi'r heddlu i ddarparu plismona addas ar gyfer y 21ain Ganrif, bydd hefyd yn fan gwaith newydd a ffres ac yn lleoliad priodol ar gyfer yr aelodau hynny o'r gymuned a allai fod angen ymweld â gorsaf heddlu.




Ffigwr 1: Winston Roddick a Mark Polin. Fel rhan o ddathliadau agoriad swyddogol Gorsaf Heddlu Llangefni fe ddadorchuddiwyd plac er cof am Dr Thomas Parry Jones OBE o Ynys Môn a ddyfeisiodd yr anadliedydd electronig cyntaf. Dadorchuddiwyd y plac gan ei weddw, Mrs Parry Jones.

Rydw i hefyd wedi cymeradwyo prynu tir yn Llai er mwyn paratoi ar gyfer ail adeiladu'r cyfleusterau plismona yn Wrecsam. Bydd datblygiad Llai yn cynnwys dalfa, swyddogion arbenigol a staff. Bydd gorsaf yng nghanol tref Wrecsam hefyd yn cael ei datblygu.

O ran yr ystâd gorfforaethol rydw i ar hyn o bryd yn adolygu'r ganolfan gyfathrebiadau ar y cyd yn Llanelwy. Nid wyf yn bwriadu rhagdybio canlyniad yr adolygiad hwn ond ei brif nod fydd sicrhau ein bod yn sicrhau gwerth am arian ar gyfer cynaliadwyedd y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol a fydd yn sicrhau darpariaeth y gwasanaeth gorau.

## Cronfa'r Comisiynydd 2013/14

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn fy ngalluogi i ddyfarnu grantiau i bartneriaid, sefydliadau cyhoeddus neu grwpiau gwirfoddol sy'n gallu cefnogi amcanion a nodau a nodir yn y cynllun heddlu a throsedd.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cadarnhau y bydd Cronfa'r Comisiynydd (sy'n cynnwys arian grant a oedd wedi'i neilltuo yn y gorffennol, gan gynnwys y Gronfa Diogelwch Cymunedol, Cronfa'r Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau (DIP), y Grant Profi Cyffuriau DIP a Chyllid Atal Troseddau Ieuenctid a Chamddefnyddio Cyffuriau) ar gyfer gogledd Cymru yn 2013/14 yn £1,379,000. Mae dosbarthiad yr arian wedi'i gynnwys yn atodiad A y ddogfen hon. Ar gyfer 2014/15, rydw i wedi dyrannu £1,166,000 i Gronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd.

## Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Mae'r gyllideb flynyddol am 2013/2014, wedi ei osod ar yr un lefel ac Awdurdod yr Heddlu yn ystod ei dymor olaf £731,174.00. Mae hyn yn cyfartalu i 0.5% or gyllideb gyflawn i blismona yng ngogledd Cymru.

# Atodiad A – Dosbarthiad Cronfa'r Comisiynydd 2013/14

Ers mis Ebrill 2013 mae'r Comisiynydd yn gyfrifol am y gronfa Diogelwch Cymunedol. Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi penderfynu ar ddosbarthiad yr arian yn eu hardal ar gyfer cyllid sydd wedi'i ddyrannu i bob ardal partneriaeth. Mae'r gronfa wedi'i dyrannu fel â ganlyn:

| Derbynnydd | Diben | Swm |
|---|---|---|
| Partneriaeth Diogelwch Ynys Môn a Gwynedd<br><br>Cyfanswm: **£62, 970.31** | Cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (Gwynedd): *Cafodd tan wariant o fewn y flwyddyn ei adnabod yn erbyn yr elfen hon gan y Bartneriaeth a cytunodd y Comisiynydd i argymhellion y bartneriaeth y dylid dyrannu'r cyllid i Gynllun Bugeiliaid Stryd Bangor (£5,990.49) ac y dylid ariannu prosiect HERMES sydd wedi'i anelu at leihau troseddau caffael yng ngogledd Gwynedd (£4,000) gyda gweddill y £11,009.51 yn cael ei ddarparu i ariannu'r swydd cydlynydd YG.* | **£21,000** |
| | Gofal a Thrwsio Gwynedd (gosod offer gwella diogelwch ar gyfer pobl sydd â risg uchel o ddioddef Trais Domestig ac anfon Teleofal mewn achosion o Drais Domestig (risg uchel MARAC) | **£10,000** |
| | TCC *Street Hawk* y gellir ei adleoli a thaliad rhent Teleofal Trais Domestig (Gwynedd) | **£4,797.31** |
| | Cost gosod a rhent, Teleofal mewn achosion Trais Domestig (risg uchel MARAC) (Ynys Môn): | **£1,055.44** |
| | Swyddog Lleihau YG (Ynys Môn): | **£11,117.56** |
| | Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) (Ynys Môn): | **£15,000** |
| Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Conwy a Sir Ddinbych<br><br>Cyfanswm: **£75,655.82** | Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ar y cyd Conwy a Sir Ddinbych | **£24,000** |
| | *Prosiectau Blaenoriaethau Lleol:* | |
| | Glanhau graffiti sarhaus | **£6,000** |
| | Cynnal a chadw giât llwybr | **£9,000** |
| | TCC | **£10,000** |
| | Arwyddion dim galwyr digroeso | **£4,000** |
| | Prosiect Cartrefi Diogelach | **£10,000** |
| | Gwarchod y Gymdogaeth | **£4,655.82** |
| | Gweithiwr Allgymorth Cydraddoldeb Hil | **£8,000** |
| Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Sir y Fflint<br><br>Cyfanswm: **£44,126.50** | Ymgynghorydd Trais Domestig Annibynnol (IDVA) | **£8,875.00** |
| | Cydlynydd Atal Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YG) Sir y Fflint | **£16,170.25** |
| | Swydd Prif Swyddog Gwarchod y Gymdogaeth | **£19,081.25** |

| Derbynnydd | Diben | Swm |
|---|---|---|
| Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Wrecsam<br><br>Cyfanswm: **£49,127.56** | Cydlynu Atal Trais Domestig a Thrais Rhywiol ac Eiriolwyr Trais Domestig Annibynnol | **£15,000** |
| | Ymgyrchoedd Tawelu Meddwl a Chyfathrebiadau | **£8,000** |
| | Datblygu a Chyfathrebiadau Cynlluniau Gwarchod | **£12,585.56** |
| | Prosiect Gwyliadwriaeth TCC | **£9,000** |
| | Gwella Diogelwch | **£4,542** |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Gwynedd ac Ynys Môn<br><br>Cyfanswm: **£16,464** | Cyfraniad tuag at gyflog y swydd Gweithiwr Cymdeithasol Atal (ariennir ar y cyd o'r grant BCT) | **£10,000** |
| | Cyfraniad tuag at gyflog y swydd Nyrs Camddefnyddio Sylweddau (ariennir ar y cyd o'r grant BCT) | **£6,464** |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych<br><br>Cyfanswm: **£20,384** | Cyfraniad tuag at gyflog y Swyddog Camddefnyddio Sylweddau (ariennir ar y cyd gan y SCT) | **£20,384** |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint<br><br>Total: **£15,029** | Cyfraniad tuag at gost Gweithiwr Atal, Cyfiawnder Troseddol (ariennir ar y cyd gan y SCT) | **£15,029** |
| Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Wrecsam<br><br>Cyfanswm: **£19,695** | Cyfraniad tuag at raglen atal naw mlynedd. | **£19,695** |
| Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau Gogledd Cymru (DIP)<br><br>Cyfanswm: **£892,662.59** | Gwasanaethau Ymyrraeth Cyffuriau ac Atgyfeirio ar ôl Arestio | **£650,000** |
| | Presgripsiynu ar ôl Carchar | **£148,160** |
| | Tîm Rheoli Rhanbarthol | **£106,000** |
| | Ystâd | **£52,500** |
| | Trwydded System TG | **£2,400** |
| | *Cyfanswm cost y rhaglen: £959,060.00 (£66,397.41 o ffynonellau ariannu eraill)* | |
| Heddlu Gogledd Cymru<br><br>Cyfanswm: **£182,825** | Cyfraniad tuag at 'Raglen Profi am Gyffuriau' i dalu am ran o gostau staffio'r rhai hynny sy'n rhoi profion cyffuriau yn y ddalfa. | **£182,825** |



Glan y Don, Bae Colwyn LL29 8AW
Ffôn / Tel: **01492 805486**

Glan y Don, Colwyn Bay LL29 8AW
Ffacs / Fax: **01492 805489**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 2 Mehefin 2014 |
| **SWYDDOG ARWEINIOL:** | Ken Finch, Cyfarwyddwr Strategol (Democrataidd, Rheoleiddio a Chefnogaeth) - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **TESTUN:** | a) Paneli Heddlu a Throsedd: Y Flwyddyn Gyntaf. Cyhoeddwyd y ddogfen gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus a<br>b) Datblygu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Craffu. |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1 I gynorthwyo Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, i gyflwyno trefniadau "Arfer Da" ar gyfer craffu effeithiol o ran Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHT), mae'n rhaid cael trosolwg strategol o ardal Heddlu Gogledd Cymru, wrth hefyd ddarparu adolygiadau agored a thryloyw, cyhoeddi agendâu, cofnodion a Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amserol, y mae modd ei darparu ond hyblyg, sydd ar gael i bartneriaid ac aelodau o'r cyhoedd.

1.2 Er mwyn adolygu'r penderfyniadau a wnaed gan CHT mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau, argymhellir bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (PHT) yn datblygu Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i graffu yn rhagweithiol.

## 2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 Gofynnir i Aelodau ystyried sut y gall y PHT wella ei drefniadau craffu o ran y CHT i sicrhau bod blaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throsedd 2014 yn cael eu darparu er budd pawb ar draws Gogledd Cymru.

2.2 Wrth ystyried a ddylid ymgymryd ag unrhyw waith craffu, bydd angen i'r PHT ystyried yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael, ac efallai y dylai'r PHT ystyried cyfyngu ei hun i un neu ddau o destunau craffu'r flwyddyn.

2.3 Ystyrir craffu, adweithiol a rhagweithiol, yn rhan annatod o rôl y PHT wrth graffu ar waith y CHT, ac mae hefyd yn cynnig cymorth a her.

2.4 Mae gan graffu rhagweithiol y potensial i gynyddu proffil y PHT wrth fynd i'w ail flwyddyn; ond, bydd yn hanfodol bod rhaglen waith craffu'r PHT yn cysylltu'n agos â chynlluniau'r CHT ei hun ac nad yw'r PHT yn crwydro i ffwrdd oddi wrth ei ddyletswyddau statudol craidd.

2.5 I gynorthwyo Aelodau i werthfawrogi sut y mae PHT eraill wedi ymgymryd i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau drwy ystyried adroddiad a gomisiynwyd ac a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus - Paneli Heddlu a Throsedd: Y Flwyddyn Gyntaf.

2.6 Gan fod yn ymwybodol o'r adroddiad uchod, mae'r meysydd posibl canlynol ar gyfer craffu yn cael eu hawgrymu, a allai gysylltu â gweithgareddau'r CHT:

- Sut mae'r CHT yn gwneud penderfyniadau comisiynu a beth yw ei fwriadau yn y dyfodol?
- Sut mae'r CHT yn cyflawni'r amcanion yn ei gynllun heddlu a throsedd?
- Sut mae'r CHT yn creu partneriaethau effeithiol?
- Sut mae'r CHT yn gwella cyfathrebu/ymgynghori â'r cyhoedd?
- Sut mae'r CHT yn gwella hyder yn yr Heddlu ar draws Gogledd Cymru?

## 3. ARGYMHELLIAD/DEWIS

3.1 Bod Aelodau'n ystyried ac yn nodi cynnwys yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, Paneli Heddlu a Throsedd: Y Flwyddyn Gyntaf, fel egwyddorion "Arfer da".

3.2 Dylai Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ystyried y pynciau craffu a awgrymwyd ym Mharagraff 2.6, er mwyn datblygu rhaglen gwaith i'r dyfodol ar gyfer craffu rhagweithiol.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIR

4.1 Yn ôl y Ganolfan Craffu Cyhoeddus, yr unig reswm y mae'r PHT rŵan yn gwneud gwaith craffu rhagweithiol yw oherwydd y pwysau uchel a

chyflymder y gwaith statudol a gynhaliwyd yn ystod eu blwyddyn gyntaf gweithredu.

4.2 Er mwyn cynorthwyo'r Panel i werthfawrogi sut y mae Paneli Heddlu a Throsedd eraill wedi ymrwymo i gyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau ar ddiwedd eu blwyddyn gyntaf, mae'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus, wedi comisiynu a chyhoeddi dogfen ymchwil gynhwysfawr - **Paneli Heddlu a Throsedd: Y Flwyddyn Gyntaf.** Gellir agor y ddogfen drwy ddilyn y ddolen isod:

http://www.cfps.org.uk/domains/cfps.org.uk/local/media/downloads/Police_Report_CfPS_web.pdf

4.3 Mae'r paragraffau enghreifftiol allweddol canlynol wedi eu tynnu o'r adroddiad:

**Prif Ganfyddiadau:**

"Mae llwyddiant neu fethiant Paneli Heddlu a Throsedd yn ddyledus, ym mhob maes i ansawdd y berthynas rhwng Panel yr Heddlu a Throsedd, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd"

**Dylai paneli ystyried sut y gallant gyflawni eu rôl gyda gwaith mwy rhagweithiol, lle mae'n gymesur a lle mae gwaith o'r fath yn ymwneud yn uniongyrchol â'u rôl statudol.**

Bydd gwaith rhagweithiol – ymchwiliadau o flaenoriaethau strategol allweddol gyda golwg ar gefnogi gwaith y CHT - yn un ffordd allweddol i'r Panel ddangos ei effeithiolrwydd. Bydd angen i'r gwaith hwn gael ei gynllunio'n ofalus i adlewyrchu gwaith y CHT ei hun, er mwyn lleihau dyblygu ac i sicrhau bod y ffocws ar y meysydd hynny lle gall ymyrraeth y Panel ychwanegu'r gwerth mwyaf.

Mae'r adroddiad yn mynd ymlaen i dynnu sylw at nifer o bwyntiau allweddol o dan **"What Good looks like"**, fel a ganlyn;

**Ar sail ein gwaith ymchwil, mae Paneli da:**

- Wedi ceisio ymgysylltu'n adeiladol â'u CHT o'r cychwyn cyntaf, ac fel arfer mae rhyw fath o gytundeb ar waith gyda'r CHT am rannu gwybodaeth a gweithio ar y cyd sy'n mynd y tu hwnt i delerau'r Protocol Plismona.

- Gan ddefnyddio gwybodaeth o ystod o ffynonellau yn ddeallus, dod â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth honno i ddylanwadu ar eu dyletswyddau strategol, statudol.
- Yn meddu ar syniad clir o'u rôl a'u cyfrifoldebau, sy'n gyfystyr â dull penodol i raglennu gwaith.
- Yn meddu ar adnoddau da - ond yn fwy na hynny, yn defnyddio pa adnoddau sydd ganddynt yn gymesur, gan ddefnyddio sgiliau ac arbenigedd unigol aelodau'r Panel i yrru ei waith yn ei flaen.
- Yn weladwy - fel arfer drwy gael presenoldeb penodol ar y we, a bod â chynlluniau ar waith i ddeall barn y cyhoedd, ac i ddod â'r farn honno i ddylanwadu ar y broses graffu.
- Yn gweithio'n dda gydag eraill, fel arfer Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a phwyllgorau craffu Partneriaethau Diogelwch Cymunedol ond hefyd gydag amrywiaeth o bartneriaid eraill lle bo'n briodol.
- Lle bo hynny'n berthnasol, yn briodol, a lle y mae adnoddau yn caniatáu, yn gwneud gwaith rhagweithiol i fynd ati i gefnogi'r CHT, ac i herio eu rhagdybiaethau a'u blaenoriaethau wrth iddynt ddatblygu polisi.

"Mae'r gwaith o sicrhau effeithiolrwydd Paneli yn gorwedd â Phaneli a CHT. Er ein bod yn credu bod un neu ddau o gyfraniadau polisi ymarferol y gall y Swyddfa Gartref eu gwneud, mae'r ffaith fod y trefniadau newydd yn gweithio mewn nifer o feysydd yn dangos y gallant ac y dylent weithio ym mhob man heb ymyrraeth sylweddol gan Lywodraeth. Rydym o'r farn bod yr offer a'r adnoddau yn bodoli eisoes i wneud Paneli yn effeithiol".

**Mae fel pe bai tair prif system o wneud gwaith craffu "rhagweithiol":**

- Cyfarfodydd Panel Thematig. Bydd pob cyfarfod o'r Panel (ac eithrio'r cyfarfod i ystyried y gyllideb, praesept, cynllunio ac yn y blaen) yn dilyn thema blaenoriaeth unigol yng Nghynllun Heddlu a Throsedd y CHT gan ganiatáu ar gyfer trafodaeth fanwl. Mae hwn yn ffordd gost-isel o sicrhau y gall y Panel wneud gwaith mwy rhagweithiol, ond mae'r dull thematig yn golygu y gallai craffu'r Panel fod yn eithaf bras o ran ei natur.
- Gweithio tasg a gorffen. Bydd hyn yn gyfarwydd i swyddogion a chynghorwyr sy'n gweithio gyda phwyllgorau craffu llywodraeth leol. Mae grwpiau gwaith bach â therfynau amser yn cael eu sefydlu i ymchwilio i faterion polisi penodol, ac i wneud argymhellion. Gall hyn fod yn ffordd benodol ac effeithiol o weithio, ond mae'n golygu llawer o adnoddau. Mae tua deg Panel yn bwriadu gweithredu yn y modd hwn, neu eisoes wedi sefydlu grwpiau Tasg a Gorffen.
- Sefydlu nifer fach o is-grwpiau sefydlog i edrych ar faterion penodol. Mae rhai Paneli wedi sefydlu grwpiau sefydlog i edrych ar

y Cynllun Heddlu a Throsedd a'r gyllideb wrth iddynt gael eu datblygu. Nid yw'r dulliau hyn o graffu rhagweithiol yn annibynnol ar ei gilydd.

**Defnyddio gwaith craffu rhagweithiol i wneud Paneli yn fwy effeithiol**

- Mae gan graffu rhagweithiol botensial i gryfhau dull y Panel o gynnal ei ddyletswyddau statudol craidd, a dylai gael ei wneud gyda'r prif amcan hwn mewn golwg. Bydd yn bwysig na fydd y Panel, wrth gynnal y gwaith hwn, yn creu " diwydiant" sy'n ei weld yn crwydro oddi wrth ei ddyletswyddau statudol craidd.
- Bydd rhaglenni gwaith effeithiol a chysylltiadau agos â'r CHT yn gwneud gwaith rhagweithiol yn haws ei reoli a darparu adnoddau ar ei gyfer, a bydd yn gwella ei allu'r i gefnogi'r CHT wrth iddo wneud penderfyniadau.
- Bydd canolbwynt ar gynnwys y Cynllun Heddlu a Throsedd yn sicrhau bod gwaith rhagweithiol yn bwydo'n uniongyrchol i mewn i ddyletswyddau statudol y Paneli, ond rhaid ei wneud yn y fath fodd fel ei fod yn canolbwyntio ar y meysydd hynny lle gall y Panel ychwanegu'r gwerth mwyaf.
- Dylai rhaglennu gwaith gynnwys ymagwedd gadarn i flaenoriaethu gwaith, a ddiffinnir gan y Cynllun Heddlu a Throsedd a gan ddata cefndir y gallai'r Panel gael mynediad iddo. Bydd bod â ffordd i benderfynu ar flaenoriaethau Paneli yn dryloyw yn helpu i reoli adnoddau cyfyngedig.

4.4 Mae'n hollbwysig fod y PHT yn penderfynu ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol strategol, yn seiliedig efallai ar y pedair blaenoriaeth a nodir yn y Cynllun CHT ar gyfer 2014.

4.5 Bydd ymchwil yn cael ei wneud gan Swyddogion Cymorth yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; ond, bydd angen i'r Panel fod yn ymwybodol o faterion sydd eisoes yn cael eu craffu gan Bwyllgorau Craffu a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol er mwyn osgoi dyblygu. Yn yr achosion hyn, efallai y gall gweithio ar y cyd fod yn well defnydd o adnoddau.

4.6 Dylid ymgynghori â'r CHT ar y rhaglen waith, er mwyn penderfynu a oes meysydd penodol lle hoffai gael cymorth gan y PHT wrth ddatblygu ei bolisïau. Hefyd, bydd rhaglenni gwaith effeithiol a chysylltiadau agos â'r CHT yn gwneud gwaith rhagweithiol yn haws i'w reoli a darparu adnoddau ar ei gyfer, a bydd yn gwella gallu'r Panel i gefnogi'r CHT wrth iddo wneud penderfyniadau.

4.7 Wrth i ni gychwyn ail flwyddyn y PHT, mae angen i'r Panel fod yn strategol am fath a natur ei Raglen Gwaith i'r Dyfodol ac i'r perwyl hwn, awgrymir bod y pynciau a amlygwyd ym mharagraff 2.6 yn cael eu hystyried fel pynciau i gael eu hamserlennu'n briodol ar raglenni'r dyfodol er mwyn i graffu effeithiol gael eu cychwyn ar y cyfle cyntaf.

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Ymgynghorwyd â Chadeirydd ac Is-Gadeirydd y PHT, sy'n cefnogi rhaglen gwaith i'r dyfodol craffu rhagweithiol, i ystyried sut y mae Paneli Heddlu a Throsedd eraill wedi gweithredu yn ystod eu blwyddyn gyntaf a pha brosesau "Arfer Da" y gellid eu hystyried ymhellach

5.2 Ymgynghorwyd â'r CHT a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

## 6. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU

6.1 Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn darparu'r gefnogaeth angenrheidiol i ddatblygu rhaglen waith rhagweithiol ar gyfer PHT a bydd y costau hyn yn cael eu talu gan grant y Swyddfa Gartref.

## 7. RISG

7.1 Gallai methu â datblygu craffu "Arfer Da" effeithiol arwain at ansicrwydd ynghylch effeithiolrwydd cyffredinol y PHT a'i allu i graffu'n gadarn ar benderfyniadau comisiynu a bwriadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn ffordd agored a thryloyw.

7.2 Trwy beidio â chael rhaglen waith rhagweithiol, gallai'r PHT gael ei feirniadu am beidio ymchwilio i faterion o flaenoriaeth i'r ardal leol a'r CHT. Bydd craffu effeithiol yn sicrhau gonestrwydd a thryloywder nid yn unig i'r PHT, ond hefyd i bartneriaid a'r cyhoedd.

## 8. CYHOEDDI

8.1 Mae Cofnodion, rhaglen a Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Panel yn cael eu cyhoeddi ar wefan Panel Heddlu a Trosedd Gogledd Cymru.